Rhif: WG32590

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig – diwygio rheoliadau a chod ymarfer

Dyddiad cyhoeddi: 04 Medi 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 27 Tachwedd 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae’r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar ddiwygiadau arfaethedig i’r Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 a chod ymarfer newydd ar swyddogaethau’r awdurdod lleol o ran gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig. |
| **Sut i ymateb** | Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i dychwelyd i'r cyfeiriad isod. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Gweler y ddogfen ymgynghori, rheoliadau ddrafft a chod ymarfer: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/gorchmynion-gwarcheidiaeth-arbennig |
| **Manylion Cysylltu** | I gael ragor o wybodaeth:<br><br>Gwella Canlyniadau i Blant sy'n Derbyn Gofal<br>Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd CF10 3NQ<br><br>E-bost: plantsynderbyngofal@llyw.cymru<br><br>Ffôn: 03000 253049 |
| **Diogelu Data** | Sut y byddwn yn defnyddio’r farn a’r wybodaeth a roddwch i ni<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy’n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch |

wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar ddiwygiadau arfaethedig i Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 a chod ymarfer newydd ar swyddogaethau'r awdurdod lleol o ran gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig. Bydd y diwygiadau arfaethedig a'r cod ymarfer yn dod i rym o 1 Gorffennaf 2018.

## Cefndir: gwarcheidiaeth arbennig

Gorchymyn llys yw gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig ac mae'n penodi unigolyn neu unigolion yn warcheidwad arbennig plentyn. Fe'i cyflwynwyd yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2005, fel opsiwn sefydlogrwydd i blant nad oedd modd iddynt fyw gyda'u rhieni. Mae'r gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn rhoi cyfrifoldeb rhiant sylweddol i'r gwarcheidwad arbennig am bron iawn pob penderfyniad sy'n effeithio ar y plentyn. Mae hefyd yn cyfyngu ar hawliau'r rhieni biolegol i ymyrryd neu herio'r gorchymyn heb ganiatâd y llys. Mae'n rhoi statws cyfreithiol sy'n cynnig mwy o sicrwydd na maethu hirdymor, ond nid yw'n torri'r cysylltiad cyfreithiol yn llwyr â'r rhieni fel sy'n digwydd yn achos mabwysiadu. Nid yw'r plant sy'n dod dan orchmynion gwarcheidiaeth arbennig yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol (hynny yw, nid ydynt yn 'blant sy'n derbyn gofal') er bod yr awdurdod lleol yn aml yn cynnig cymorth ariannol neu gymorth arall. Mae trefniant gwarcheidiaeth arbennig yn galluogi rhai plant i adael gofal yr awdurdod lleol, ond i eraill mae trefniant gwarcheidiaeth yn ddewis amgen i fod dan ofal.

Cyflwynwyd gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig i Ddeddf Plant 1989 drwy basio Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Ychwanegodd adran 115(1) o Ddeddf 2002 adrannau newydd 14A-F i'r Ddeddf Plant. Mae'r adrannau newydd yn nodi'r canlynol:

- pwy all ymgeisio am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig
- ym mha amgylchiadau y gellir gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig
- natur ac effaith gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig
- amrywio a rhyddhau gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig
- gwasanaethau cymorth i'r rheini sy'n cael eu heffeithio gan warcheidiaeth arbennig

Nodwyd darpariaethau manylach yn Rheoliadau 2005, gan gynnwys:

- y materion y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymdrin â nhw mewn adroddiad i'r llys pan fo'r awdurdod yn cael hysbysiad o gais unigolyn am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig, neu'r materion y mae'r llys wedi gofyn i'r awdurdod lleol gynnal ymchwiliad iddynt a pharatoi adroddiad
- darparu gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig
- yr amgylchiadau lle mae modd rhoi cymorth ariannol
- yr unigolion sy'n gymwys i gael asesiad o'u hanghenion am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig, a'r drefn asesu
- pennu swm y cymorth ariannol
- y gwasanaethau cymorth y maent yn bwriadu eu cynnig yn dilyn asesiad
- cynllun gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig

- adolygu darpariaeth gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig

**Y rheswm dros newid**

Pan gyflwynwyd y gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig, credwyd y byddent y addas iawn ar gyfer rhai grwpiau penodol o blant. Roedd y rhain yn cynnwys plant hŷn a oedd wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd biolegol, plant a oedd eisoes wedi ymgartrefu gyda pherthynas neu ofalwr maeth, plant o grwpiau lleiafrifol ethnig a oedd yn wynebu anawsterau diwylliannol wrth gael eu mabwysiadu, a phlant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches ac a allai fod angen sail gyfreithiol gadarn heb dorri'r cyswllt cryf sydd ganddyn nhw â'u teulu dramor.

Gyda threigl amser bu newid graddol yn y ffordd y caiff gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig eu defnyddio. Er enghraifft, bu cynnydd yn nifer y gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig sy'n cael eu dyfarnu mewn cysylltiad â phlant ifanc iawn, a chynnydd yn nifer y gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig a ddyfarnwyd ar y cyd â gorchymyn goruchwylio. Mae hyn wedi effeithio ar sut mae awdurdodau lleol yn asesu addasrwydd a dichonolrwydd trefniadau gwarcheidiaeth arbennig, gydag asesiadau'r awdurdod lleol yn rhoi mwy o bwyslais ar allu'r gwarcheidwaid arbennig i ofalu am y plentyn dros y tymor hwy, ac ar reoli'r perygl posibl o niwed.

Yn 2016, sefydlwyd grŵp technegol gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r trefniadau gwarcheidiaeth arbennig o ganlyniad i'r datblygiadau hyn ac yn dilyn adolygiad o drefniadau gwarcheidiaeth arbennig yn Lloegr. Roedd aelodau'r grŵp yn dod o'r sector gwirfoddol, llywodraeth leol, Prifysgol Caerdydd, Swyddfa'r Comisiynydd Plant a CAFCASS Cymru. Bu'r grŵp yn casglu data ar orchmynion gwarcheidiaeth arbennig, yn adolygu canfyddiadau ac argymhellion ymchwil diweddar, yn ystyried y newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth yn Lloegr, ac yn ystyried yr arfer presennol yng Nghymru o ran asesu a chefnogi, a'r heriau i awdurdodau lleol, teuluoedd a'r llysoedd.

Hefyd, mae angen disodli Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 26/06 – Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005: Canllawiau. Cyhoeddwyd y canllawiau hyn dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, a ddatgymhwyswyd yn achos Cymru pan ddaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym yn Ebrill 2015. Yn eu lle bydd angen cod ymarfer newydd sy'n nodi swyddogaethau awdurdodau lleol o ran gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig dan adran 145 o ddeddf 2014.

**Pa newidiadau yr ydym yn eu cynnig?**

Rydym yn cynnig gwneud y newidiadau canlynol i'r fframwaith statudol ar gyfer gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig yng Nghymru.

1. **Materion ychwanegol i'w hystyried a'u cynnwys yn adroddiad yr awdurdod lleol i'r llys**

Ar ôl i ffurflen gais ddod i law gan ddarpar warcheidwad arbennig, neu ar gyfarwyddyd y llys teulu, mae'n rhaid i awdurdod lleol ymchwilio a pharatoi adroddiad i'r llys ynglŷn ag

addasrwydd yr ymgeiswyr i fod yn warcheidwaid arbennig. Mae'n rhaid i adroddiad yr awdurdod lleol gynnwys y materion a benodwyd yn yr Atodlen i Reoliadau 2005.

Bwriadwn osod materion ychwanegol yn yr atodlen, er mwyn creu fframwaith asesu cryfach a chadarnach i ddarpar warcheidwaid arbennig. Nod y materion hyn yw sicrhau asesiad mwy cynhwysfawr o'r trefniant arfaethedig, gan gynnwys unrhyw beryglon a sut yr eir i'r afael â'r rhain. Y diben yw ategu'r amcan o sicrhau bod y trefniant yn cefnogi'r plentyn yn effeithiol nes ei fod yn 18 oed.

Ymhlith yr ychwanegiadau allweddol i'r rhestr o faterion i'w hystyried mae:

- unrhyw niwed a ddioddefwyd gan y plentyn, ac unrhyw berygl o niwed y gallai plentyn ei ddioddef yn y dyfodol gan ei rieni, perthnasau neu unrhyw unigolyn arall a gaiff ei ystyried yn berthnasol gan yr awdurdod lleol
- disgrifiad o bersonoliaeth y plentyn, ei ddatblygiad cymdeithasol, datblygiad emosiynol ac ymddygiadol ac unrhyw anghenion presennol perthnasol neu anghenion tebygol yn y dyfodol
- asesiad o allu'r darpar warcheidwaid arbennig i rianta, gan gynnwys:
    - eu dealltwriaeth o anghenion presennol y plentyn a'i anghenion yn y dyfodol, a'u gallu i ddiwallu'r anghenion hynny, yn enwedig unrhyw anghenion sydd gan y plentyn o ganlyniad i'r niwed y mae wedi ei ddioddef
    - asesiad o ddealltwriaeth y darpar warcheidwaid arbennig o unrhyw risg o niwed yn y presennol neu'r dyfodol , a'u gallu i amddiffyn y plentyn rhag y risgiau hynny
    - eu gallu, eu haddasrwydd a'u hymrwymiad i fagu'r plentyn nes ei fod yn ddeunaw oed
    - eu dealltwriaeth o swyddogaeth y gwarcheidwad a'r effaith debygol ar eu bywydau.
- tystysgrif fanylach o gofnod troseddol sy'n cynnwys gwybodaeth am addasrwydd sy'n gysylltiedig â'r plant, o ran y darpar warcheidwad arbennig neu unrhyw aelod arall o gartref y gwarcheidwad arbennig sy'n 18 oed neu'n hŷn.

Nodir y rhestr lawn o faterion ychwanegol yn rheoliad 5 o'r Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018 drafft.

2. **Darparu gwasanaethau cefnogi gwarcheidiaeth arbennig i blant a fu'n derbyn gofal, sy'n byw mewn ardal awdurdod lleol arall**

Pan ddaw plentyn sy'n derbyn gofal yn destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, caiff y gorchymyn gofal ei ryddhau neu daw'r trefniant llety gwirfoddol i ben, ac nid oes gan y plentyn bellach statws derbyn gofal. Mae Rheoliadau 2005 yn aneglur o ran pwy sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion cymorth y gwarcheidiaeth arbennig pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal yn symud i ardal awdurdod lleol arall unwaith y rhyddheir y gorchymyn. Mae rheoliadau mabwysiadu yn nodi cyfnod o dair blynedd mewn amgylchiadau tebyg.

Bwriadwn lunio rheoliad newydd sy'n nodi bod yn rhaid i'r awdurdod lleol a oedd yn gofalu am y plentyn cyn dyfarnu'r gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig barhau i ddiwallu unrhyw anghenion cymorth y gwarcheidiaeth arbennig a nodwyd am dair blynedd, ni waeth lle mae'r

plentyn yn byw. Mae hyn yn berthnasol i'r cymorth a gaiff y plentyn fu'n derbyn gofal, gwarcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig y plentyn, neu blentyn y gwarcheidwad arbennig neu'r darpar warcheidwad arbennig. Byddai'r ddarpariaeth hon yn gwneud cymorth gwarcheidiaeth arbennig yn gydnaws â'r gofynion cymorth mabwysiadu yng Nghymru. Darperir ar gyfer hyn yn y rheoliad newydd arfaethedig 3A o Reoliadau 2005 fel y'i mewnosodwyd gan reoliad 6 o Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018 drafft.

Mae'r rheoliad newydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol, yn yr amgylchiadau hyn, adolygu'r gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig o fewn tri mis fan bellaf cyn diwedd y cyfnod tair blynedd. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysu'r awdurdod lleol y mae'r unigolyn sy'n derbyn y cymorth yn byw ynddo o unrhyw angen parhaus am gefnogaeth, a chyfeirio'r unigolyn at wybodaeth leol, cyngor a chymorth perthnasol.

3. **Dyletswydd yr awdurdod lleol i hysbysu ymgeiswyr o'u hawl i ofyn am asesiadau ar gyfer cymorth gwarcheidiaeth arbennig**

Mae adran 14F o Ddeddf Plant 1989 yn galluogi awdurdod lleol i gynnal asesiad o wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig os gofynnir am hynny gan blentyn sydd dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig, gwarcheidwad arbennig, rhiant, neu unrhyw unigolyn arall a bennir yn y rheoliadau.

Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 yn rhestru'r bobl hynny y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol, ar eu cais, gynnal asesiad o'r angen am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig. Yn ogystal â'r rhai a nodir uchod, mae'r rheoliad hefyd yn nodi plentyn gwarcheidwad arbennig, plentyn y ceisir gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig ar ei gyfer neu y mae'r llys wedi gofyn am adroddiad arno, plentyn a enwir mewn adroddiad a gyflwynir gan y llys, darpar warcheidwad arbennig, ac unigolyn perthnasol sydd â threfniadau cysylltu.

Bwriadwn osod gofyniad newydd yn y cod ymarfer, sef y gofyniad bod yn rhaid i awdurdod lleol hysbysu'r bobl hyn o'u hawl i ofyn am asesiad ar gyfer gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig pan ddaw cais i law neu pan mae'r llys yn cyfarwyddo'r awdurdod i gynnal asesiad o addasrwydd.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

1. A ydych yn fodlon bod y rhestr ddiwygiedig o faterion i'w cynnwys yn adroddiadau'r awdurdod lleol i'r llys yn rhoi sylw i'r holl faterion perthnasol? **Gweler rheoliad drafft 5**

   Ydw / Nac ydw

   Os ydych wedi ateb 'Nac ydw', dywedwch wrthym, yn eich barn chi, pa faterion ychwanegol y dylid eu cynnwys a pham.

2. A ydych yn cytuno â’r cynnig i’w gwneud yn ofynnol i’r awdurdod lleol a fu’n gofalu am blentyn (yn union cyn y gwnaed gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig) ddiwallu unrhyw anghenion cymorth gwarcheidiaeth arbennig am dair blynedd, ni waeth lle mae’r plentyn yn byw? **Gweler rheoliad drafft 6(1) a (21)**

   Ydw / Nac ydw

   Os ydych wedi ateb ‘Nac ydw’, dywedwch pam.

3. A ydych yn cytuno bod yn rhaid i awdurdod lleol, yn yr amgylchiadau hyn, adolygu’r gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig sydd ar gael, a hysbysu’r awdurdod lleol y mae’r unigolyn yn byw ynddo am unrhyw angen am gymorth parhaol? **Gweler rheoliad drafft 6(3)**

   Os ydych wedi ateb ‘Nac ydw’, dywedwch pam.

4. A ydych yn cytuno bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i hysbysu’r bobl berthnasol o’u hawl i ofyn am asesiad i gael gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig? **Gweler cod ymarfer, tudalen 24**

   Os ydych wedi ateb ‘Nac ydw’, dywedwch pam.

5. A oes unrhyw unigolion eraill y dylid eu hychwanegu, yn eich barn chi, at y rhestr o bobl sydd wedi’u rhagnodi? **Gweler rheoliad drafft 7**

6. A hoffech chi gynnig unrhyw sylwadau eraill ar y Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018 drafft?

7. Mae’r Cod Ymarfer drafft yn pennu gofynion amrywiol ar awdurdodau lleol o ran eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol (yr hyn y mae’n ‘rhaid’ i awdurdod lleol ei wneud). A yw’r gofynion hyn yn rhesymol ac yn gymesur, neu a ddylai’r awdurdodau lleol gael mwy o ryddid, ac os felly ym mha feysydd?

8. A hoffech chi gynnig unrhyw sylwadau ar y Cod Ymarfer drafft o ran arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn cysylltiad â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig?

9. A ddylen ni wneud unrhyw newidiadau eraill, yn eich barn chi, i’r rheoliadau neu’r cod ymarfer, i wella’r ffordd y mae trefniadau gwarcheidiaeth arbennig yn gweithio yng Nghymru?

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n gymwys):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1**

A ydych yn fodlon bod y rhestr ddiwygiedig o faterion i'w cynnwys yn adroddiadau'r awdurdod lleol i'r llys yn rhoi sylw i'r holl faterion perthnasol? **Gweler rheoliad drafft 5**

Ydw / Nac ydw

Os ydych wedi ateb 'Nac ydw', dywedwch wrthym, yn eich barn chi, pa faterion ychwanegol y dylid eu cynnwys a pham.

**Cwestiwn 2**

A ydych yn cytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol a fu'n gofalu am blentyn (yn union cyn y gwnaed gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig) ddiwallu unrhyw anghenion cymorth gwarcheidiaeth arbennig am dair blynedd, ni waeth lle mae'r plentyn yn byw? **Gweler rheoliad drafft 6(1) a (21)**

Ydw / Nac ydw

Os ydych wedi ateb 'Nac ydw', dywedwch pam.

**Cwestiwn 3**

A ydych yn cytuno bod yn rhaid i awdurdod lleol, yn yr amgylchiadau hyn, adolygu'r gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig sydd ar gael, a hysbysu'r awdurdod lleol y mae'r unigolyn yn byw ynddo am unrhyw angen am gymorth parhaol? **Gweler rheoliad drafft 6(3)**

Ydw / Nac ydw

Os ydych wedi ateb 'Nac ydw', dywedwch pam.

**Cwestiwn 4**

A ydych yn cytuno bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i hysbysu'r bobl berthnasol o'u hawl i ofyn am asesiad i gael gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig? **Gweler cod ymarfer, tudalen 24**

Ydw / Nac ydw

Os ydych wedi ateb 'Nac ydw', dywedwch pam.

**Cwestiwn 5**

A oes unrhyw unigolion eraill y dylid eu hychwanegu, yn eich barn chi, at y rhestr o bobl sydd wedi'u rhagnodi? **Gweler rheoliad drafft 7**

**Cwestiwn 6**

A hoffech chi gynnig unrhyw sylwadau eraill ar y Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018 drafft?

**Cwestiwn 7**

A hoffech chi gynnig unrhyw sylwadau ar y Cod Ymarfer drafft o ran arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn cysylltiad â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig?

**Cwestiwn 8**

A ddylen ni wneud unrhyw newidiadau eraill, yn eich barn chi, i'r rheoliadau neu'r cod ymarfer, i wella'r ffordd y mae trefniadau gwarcheidiaeth arbennig yn gweithio yng Nghymru?

**Cwestiwn 9**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi – ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: ☐